

KIER

Kier Construction Western & Wales

# The Bevan Health & Wellbeing Centre

ISSUE 08

Llywodraeth Cymru Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

**Welcome to the eighth joint edition of The Bevan Health and Wellbeing Centre newsletter from Kier Construction Western and Wales, in partnership with Aneurin Bevan University Health Board (ABUHB).**

## PROJECT UPDATE

The ground grouting works concluded at the beginning of July. This has been followed by an intense period of groundworks which has seen the formation of part of the lower car park. We have installed a temporary sheet piled wall to the Market Street and Park Row. This has allowed the excavation for the new boundary walls to be constructed against the back of the foot path. Thank you for your understanding during this operation as we understand that it can be disruptive and noisy. During this next phase of works, there will be an increase in delivery traffic to the site on both Market Street and Park Row.

We are aware that our works combined with the Health Centre operations can, at times, cause congestion on Park Row. We do endeavour to control traffic with Banksmen



to keep traffic moving. These operatives are there to ensure the safety of all during vehicle movements on and off the site, and we would ask that you please respect and understand this. We understand that delays can be frustrating, but we are now over halfway through the works and are working towards conclusion, which will only be possible with your continued co-operation. Overall, works are still on target for completing in autumn 2024.

We would also like to take this opportunity to remind you that the footpath to the right-hand side of Market Street (looking down hill) and the footpath to the left-hand side of Park Row (looking towards Bedwelty Park) are closed and will be for the duration of the car park works. Please observe these closures for your safety.

## Meet the team....



**Richard Hamlin**
Project Manager



**Andrew Teague**
Site Manager



**Abigail Bowler**
Community Benefits Coordinator




**Lorraine Morgan**
ABUHB Programme Manager



**Carolyn Frame**
ABUHB Primary Care Communications & Engagement Manager





## COMMUNITY ENGAGEMENT UPDATE

On Friday the 30th of August, The Bevan Health & Wellbeing Centre celebrated the installation of two large pieces of artwork within the building. Local artist Nathan Wyburn was commissioned to create both pieces, which celebrate the culture and history of Tredegar. The reception area of the centre now features a large, collaged portrait of Aneurin Bevan, which features historical images of Tredegar and photos of the local community.

The courtyard of the centre also features a steel rose sculpture which was designed by Nathan Wyburn and crafted by Llandaff Garden Metalwork. The rose sculpture sits on top of bricks, chains and coal, symbolising the birth of Aneurin Bevan's National Health Service amidst Tredegar's heavy industry.

Following a speech from Nathan about the inspiration for his designs, staff and patients were invited for tea and welshcakes on the ground floor of the centre.

## SERVICES

Since the opening of The Bevan Health and Wellbeing Centre earlier this year, the following clinics are now running from the centre:

- Midwifery
- Child Adolescent Mental Health Service (CAMHS)
- Aneurin Bevan Specialist Drug and Alcohol Service
- Health Visitors
- Lymphoedema
- Community Speech and Language Therapy
- LAC / School nursing
- Audiology
- Dental



Kier Construction Cymru a'r Gorllewin

# Canolfan Iechyd a Lles Bevan

RHIFYN 08

Llywodraeth Cymru Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

**Croeso i'r wythfed rhifyn o newyddlenni Canolfan Iechyd a Lles Bevan ar y cyd gan Kier Construction Cymru a'r Gorllewin a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB).**



## NEWYDDION AM Y PROSIECT

Daeth gwaith growtio'r tir i ben ddechrau Gorffennaf. Mae cyfnod dwys o waith ar y tir wedi dilyn hyn, gan gynnwys ffurfio rhan o'r maes parcio isaf. Rydyn ni wedi gosod wal o seilbyst haenog dros dro ar Stryd y Farchnad a Rhes y Parc. Mae hyn wedi caniatáu i ni gyflawni gwaith cloddio i adeiladu'r waliau ffiniol newydd ar hyd cefn y llwybr cerdded. Hoffem ddiolch i chi am eich amynedd yn ystod y gwaith yma, rydyn ni'n gwerthfawrogi ei fod wedi bod yn swnllyd ac yn anghyfleus ar brydiau. Yn ystod cam nesaf y gwaith, bydd mwy o draffig cludo nwyddau'n mynd a dod i'r safle ar Stryd y Farchnad a Rhes y Parc.

Rydyn ni'n ymwybodol bod ein gwaith, o'i gyfuno â gweithrediadau'r Ganolfan Iechyd, yn gallu achosi tagfeydd ar Rhes y Parc ar brydiau. Rydyn ni'n ceisio rheoli'r traffig trwy ddefnyddio Bancsmyn i gadw'r traffig yn symud lle bo modd. Pwrpas y gweithwyr yma yw sicrhau diogelwch pawb wrth i gerbydau symud ar y safle ac oddi ar y safle, a gofynnwn yn garedig i chi barchu a deall hyn. Rydyn ni'n deall bod yr oedi'n gallu achosi rhwystredigaeth, ond rydyn ni mwy na hanner ffordd trwy'r gwaith ac yn gweithio tuag at ei gwblhau, a bydd hynny ond yn bosibl â'ch cydweithrediad parhaus chi. Ar y cyfan, mae'r gwaith yn dal i fod ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau yn hydref 2024.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i'ch atgoffa chi fod y llwybr ar ochr dde Stryd y Farchnad (wrth edrych i lawr y bryn) a'r llwybr cerdded ar ochr chwith Rhes y Parc (wrth edrych tua Pharc Bedwellty) ar gau, ac y byddan nhw'n aros ar gau nes bod y gwaith ar y maes parcio wedi ei gwblhau. Os gwelwch yn dda, er eich diogelwch eich hun, peidiwch â defnyddio'r llwybrau hyn.

## Cwrdd â'r tîm...



**Richard Hamlin**
Rheolwr y Prosiect



**Andrew Teague**
Rheolwr y Safle



**Abigail Bowler**
Cydlynydd Buddion Cymunedol




**Lorraine Morgan**
Rheolwr Rhaglen BIPAB



**Carolyn Frame**
Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Gofal Sylfaenol BIPAB







## NEWYDDION AM GYSYLLTIADAU Â'R GYMUNED

Dydd Gwener, 30 Awst, dathlodd Canolfan Iechyd a Lles Bevan osod dau ddarn mawr o waith celf yn yr adeilad. Comisiynwyd yr artist lleol, Nathan Wyburn, i greu'r ddau ddarn sy'n dathlu diwylliant a hanes Tredegar. Mae derbynfa'r ganolfan bellach yn cynnwys portread mawr o Aneurin Bevan ar ffurf clytwaith, sy'n cynnwys delweddau o hanes Tredegar a ffotograffau o'r gymuned leol.

Yn iard y ganolfan mae cerflun dur o rosyn wedi ei ddylunio gan Nathan Wyburn a'i greu gan Llandaff Garden Metalwork. Mae cerflun y rhosyn yn sefyll ar ben brics, cadwyni a glo, sy'n symboleiddio geni Gwasanaeth Iechyd Gwladol Aneurin Bevan ynghanol diwydiannau trwm Tredegar.

Yn dilyn sgwrs gan Nathan am sut y cafodd ei ysbrydoli i greu'r dyluniadau, cafodd staff a chleifion wahoddiad i gael paned a phice bach ar lawr isaf y ganolfan.

## GWASANAETHAU

Ers agor Canolfan Iechyd a Lles Bevan yn gynharach eleni, mae'r clinigau canlynol bellach yn gweithredu o'r ganolfan:

- Bydwreigiaeth
- Y Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc (CAMHS)
- Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Arbenigol Aneurin Bevan
- Ymwelwyr Iechyd
- Lymffoedema
- Therapi Lleferydd ac Iaith Cymunedol
- Plant sy'n Derbyn Gofal / Nyrsys ysgol
- Awdioleg
- Deintyddiaeth